Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Caergybi
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 1NP

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg 11-18 yw Ysgol Uwchradd Caergybi a gynhelir gan awdurdod lleol Ynys Môn.  Mae'r ysgol ger canol Caergybi ac yn gwasanaethu'r dref a'r ardaloedd cyfagos.

Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys pedair ward y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi statws Cymunedau yn Gyntaf iddynt oherwydd y lefelau uchel o anfantais economaidd a chymdeithasol.  Mae bron i 40% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Cyfran y disgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 24%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%.

Mae cynnydd cyson wedi bod yn niferoedd y disgyblion dros y tair blynedd diwethaf, ac mae 794 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, yn cynnwys 99 yn y chweched dosbarth.  Mae 14% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac addysgir Cymraeg mamiaith i 11% ohonynt.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Caiff dau ddeg chwech y cant o ddisgyblion gymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.6%.  Mae gan 3% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn ar ôl Blwyddyn 11.  Pump y cant o ddisgyblion yn unig a adawodd yr ysgol yn 16 oed yr adroddir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.  Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,808 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Ynys Môn yw £4,111 a'r isafswm yw £3,759.  Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn drydydd o'r pum ysgol uwchradd yn Ynys Môn o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- tuedd o welliant yng nghyflawniadau disgyblion dros y tair blynedd diwethaf;
- ymddygiad da y rhan fwyaf o ddisgyblion ac agweddau cadarnhaol at ddysgu mewn gwersi;
- perthnasoedd da rhwng athrawon a disgyblion;
- ystod eang o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion, sy'n cael eu gwella gan weithgareddau allgyrsiol gyda lefelau cyfranogi da;
- ymglymiad helaeth disgyblion yn y gymuned ac mewn gweithgareddau gwneud penderfyniadau; ac
- ethos cefnogol cryf yr ysgol ac ymddiriedaeth a hyder rhieni a'r gymuned leol.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod perfformiad mewn nifer o ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 3 a 4 yn parhau i fod gryn dipyn islaw perfformiad ysgolion tebyg;
- bod gormod o amrywiad yn y cynnydd a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau llythrennedd;
- bod tuedd ar i lawr wedi bod mewn presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf;
- bod cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gwella ond mae'n parhau i fod yn rhy uchel;
- nad oes gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu; ac
- nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ynglŷn â chyd-addoli dyddiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod y pennaeth, gyda chymorth da gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, wedi gosod cyfeiriad clir ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws clir ar wella;
- bod yr adroddiad hunanarfarnu yn dangos parodrwydd i fod yn hunanfeirniadol a nodi targedau addas ar gyfer gwella;
- bod hanes o wella ansawdd yr addysgu ac agweddau ar gyflawniadau disgyblion; a
- bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd clir yn datblygu rôl rheolwyr canol.

Fodd bynnag:

- nid yw cynllunio datblygiad ar bob lefel yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi strategaethau a thargedau heriol i fynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella, fel addysgu a medrau llythrennedd disgyblion;

- mae gormod o anghysondeb yn y ffordd y caiff rheolwyr canol eu herio a'u dwyn i gyfrif yn gadarn gan uwch arweinwyr;
- nid yw rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol wedi cael ei datblygu'n llawn; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion pwysig o'r arolygiad Adran 28 blaenorol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Caergybi:

A1 godi safonau a gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;

A2 gwella'r cynnydd a wna disgyblion mewn medrau llythrennedd ar bob lefel gallu;

A3 sicrhau bod pob gwers yn darparu lefel briodol o her i fodloni anghenion disgyblion o wahanol alluoedd;

A4 gwella presenoldeb a lleihau cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol;

A5 gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni;

A6 gwella rôl ac atebolrwydd rheolwyr canol gyda ffocws cryfach ar adolygu perfformiad a chodi safonau; a

A7 sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu a chyd-addoli dyddiol yn bodloni gofynion yn llawn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwella'r ysgol hon yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd cystal â'r disgwyl gan fod safonau'n parhau i fod islaw safonau ysgolion tebyg. Mae cyfran y dysgwyr sy'n cael pum gradd A*-C neu gyfwerth, yn cynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4, yn parhau i fod ymhell islaw'r disgwyliadau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg erbyn hyn. Mewn Saesneg, mae cyflawniadau disgyblion yn parhau'n is na'r cyfartaledd teuluol, yn enwedig mewn llafaredd ac ysgrifennu. Ac eithrio gwyddoniaeth, mae perfformiad mewn pynciau yng nghyfnod allweddol 3 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is, ac yn aml yn y 25% isaf, o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim.

Nid oes digon o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd D-G neu gyfwerth yn debyg i'r cyfartaledd teuluol. Mae gwelliant sylweddol wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni ar lefel 2 mewn mathemateg a gwyddoniaeth, gyda pherfformiad yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg erbyn hyn. Fodd bynnag, mewn dangosyddion eraill, mae perfformiad yn parhau i fod ymhell islaw'r disgwyliadau.

Yn y chweched dosbarth, mae canran y myfyrwyr sy'n cyflawni'r hyn sydd gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch ar raddau A* i E wedi gwella ac yn uchel erbyn hyn. Fodd bynnag, mae sgôr pwyntiau cyfartalog myfyrwyr ymhell islaw cyfartaledd Cymru.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster. Yn 2011, mae ffigurau yn is na'r cyfartaledd erbyn hyn ar gyfer y teulu o ysgolion a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gwelliant wedi bod ym mherfformiad bechgyn, er bod perfformiad yn parhau i fod gryn dipyn yn is na pherfformiad merched yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 3. At ei gilydd, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael. Mae disgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi i ddysgu ac yn gweithio'n gynhyrchiol i gyflawni amcanion gwersi. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da, a gallant alw i gof ac adolygu gwaith blaenorol yn briodol. Mae disgyblion yn gweithio'n dda mewn parau neu grwpiau bach ac yn gweithio'n ddiwyd.

Mae disgyblion yn gwrando'n dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir. Mae llawer o ddisgyblion yn fodlon cynnig atebion i ymateb i gwestiynau athrawon mewn gwersi. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, yn aml nid oes gan ddisgyblion yr hyder i ateb yn estynedig i gyfnewid syniadau a datblygu eu meddwl a'u dealltwriaeth. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio termau arbenigol.

Mae gormod o amrywiad yn y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud o ran datblygu medrau darllen ac ysgrifennu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y medrau i ymdopi â gofynion darllen mewn gwersi. Mewn rhai dosbarthiadau, mae disgyblion yn gwneud defnydd da iawn o fedrau darllen mwy heriol, fel dadansoddi testunau a llunio casgliadau. Mae disgyblion sy'n cael yr anhawster mwyaf â darllen yn 11 oed yn gwneud cynnydd da yn ystod cyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, nid yw tua hanner y disgyblion wedi gwneud digon o gynnydd mewn darllen ac maent yn parhau i gael anawsterau. Mae hwn yn faes arwyddocaol i'w wella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu cywirdeb, sillafu ac atalnodi mewn gwaith ysgrifenedig. Mewn Saesneg, mae disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau ac arddulliau ac mae eu gwaith yn dangos dealltwriaeth gynyddol o nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd mewn ysgrifennu yn fwy estynedig mewn Saesneg wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae disgyblion yn rhy aml yn cwblhau tasgau nad ydynt yn rhoi digon o her iddynt. Mewn rhai dosbarthiadau, mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu at ystod o ddibenion mewn pynciau heblaw Saesneg. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml at wahanol ddibenion mewn pynciau eraill.

Mewn Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith, mae gwelliant sylweddol wedi bod mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3, er bod perfformiad yn parhau i fod yn is na pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg ail iaith wedi bod yn uchel dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid oes digon o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch mewn Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3. Mewn gwersi, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion mewn dosbarthiadau Cymraeg mamiaith ac ail iaith yn gwneud digon o gynnydd mewn siarad ac ysgrifennu yn estynedig at ystod o ddibenion. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gadael gyda chymhwyster mewn Cymraeg, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mewn rhai pynciau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu gallu i ddilyn defnydd helaeth o'r Gymraeg gan athrawon mewn gwersi. Mae hon yn nodwedd dda.

### Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt, ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Maent yn deall pwysigrwydd ffyrdd iach o fyw ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda yn y dysgu ac mae bron pob un ohonynt yn foesgar a chwrtais.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol.

Mae tuedd ar i lawr wedi bod mewn presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf ac mae presenoldeb yn y 25% isaf o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg.  Fodd bynnag, mae data nas gwiriwyd ar gyfer dechrau eleni yn dangos gwelliant o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn isel.  Er bod nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, mae ffigurau'n parhau i fod yn rhy uchel.

Trwy'r cyngor ysgol a grŵp gweithredu ar faeth yr ysgol, mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at fywyd a gwaith yr ysgol.  Maent yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, ac maent wedi cyfrannu'n sylweddol at nifer o brosiectau fel sefydlu cyngor ieuenctid yr awdurdod lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau i'w paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu hwnt i'r ysgol.  Maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cymunedol ac yn gweithio'n helaeth gyda grwpiau cymunedol ac asiantaethau ar ystod eang o brosiectau.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion statudol.  Mae cysylltiadau sefydledig gydag ystod eang o grwpiau cymunedol lleol, asiantaethau, cyflogwyr a'r sector gwirfoddol yn gwella'r profiadau dysgu.  Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi dysgu llawer o ddisgyblion.  Mae hyn yn cynnwys rhaglen 5x60 boblogaidd.

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda ar brofiadau dysgu blaenorol disgyblion.  Mae'r ysgol a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid lleol i gyflwyno profiadau dysgu arloesol fel rhan o fenter 'Classe de mer'.  Mae'r ddarpariaeth hon yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau yng nghyd-destun yr amgylchedd morol lleol.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol ar y cyd â darparwyr eraill.  Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn mynychu sesiynau cyfnos ar gyfer TGAU mathemateg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, celf, a Bagloriaeth Cymru yn rheolaidd.  Mae'r ysgol yn darparu profiad gwaith o ansawdd da, yn cynnwys lleoliadau estynedig.  Nodwedd nodedig o'r cwricwlwm yw'r cymorth i ddisgyblion ennill cymwysterau mewn ieithoedd cymunedol, yn cynnwys Portiwgaleg, Mandarin, Pwyleg a Bengaleg.

Ym Mlwyddyn 7, mae rhaglen 'Safle Saith' yn darparu cymorth effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer dilyniant yn natblygiad medrau llythrennedd disgyblion y tu hwnt i Flwyddyn 7 wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae’r ysgol wedi cyflwyno grŵp tiwtor cyfrwng Cymraeg ychwanegol i gynyddu’r amser cyswllt ar gyfer dysgwyr Cymraeg ail iaith. Mae hon yn fenter werth chweil. Gwneir defnydd cynyddol o’r Gymraeg mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol hefyd. Mae pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn dilyn y cwrs llawn Cymraeg mewn TGAU, gyda niferoedd cynyddol yn dilyn y cwrs mamiaith yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod helaeth o weithgareddau sy’n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae’r addysgu’n dda yn y mwyafrif o wersi, sy’n welliant sylweddol ers yr arolygiad blaenorol. Gwelwyd bod perthynas waith gefnogol rhwng disgyblion ac athrawon bron ym mhob gwers. Mae llawer o athrawon yn paratoi gwersi gyda strwythur clir a dilyniant o weithgareddau dysgu priodol. Maent yn gosod amcanion dysgu clir, sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd yn ystod y wers.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae’r rhediad yn rhy araf, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn ymgymryd â thasgau nad ydynt yn eu herio neu’n eu galluogi i wneud cynnydd digonol. Yn y gwersi hyn, ni chaiff gweithgareddau dysgu eu gweddu’n dda i fodloni anghenion pob disgybl, ac nid yw cwestiynau athrawon yn herio disgyblion yn ddigon da i ddatblygu eu dealltwriaeth a’u meddwl.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o sylwadau yn rhoi arweiniad penodol i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella ansawdd eu gwaith. Nid yw disgyblion â medrau llythrennedd gwannach, yn benodol, yn ddigon ymwybodol o’u cynnydd mewn medrau a sut i wella.

Mae gan bob disgybl radd neu lefel darged sy’n benodol i bwnc, wedi’i seilio ar ystod o wybodaeth briodol, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymwybodol o’u targedau unigol. Mae system olrhain effeithiol yn galluogi athrawon i nodi’r disgyblion hynny sydd mewn perygl o fethu cyflawni eu targedau, ac ymyrryd yn briodol trwy gynllun mentora’r ysgol.

Mae adroddiadau interim yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, mae ansawdd a chysondeb adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhy amrywiol. Nid yw mwyafrif o adroddiadau yn rhoi arweiniad clir a chryno i rieni neu ddisgyblion ynglŷn â sut i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar ar gyfer disgyblion, ac mae’n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, a’u datblygiad moesol a diwylliannol yn effeithiol. Mae’r athrawon yn bobl hawdd mynd atynt, ac mae disgyblion yn hyderus i ymgynghori â nhw os oes ganddynt bryderon.

Mae’r ysgol yn annog disgyblion i ddewis ffyrdd iach o fyw trwy fentrau bwyta’n iach a thrwy ddarparu ystod briodol o weithgareddau corfforol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu a chymdeithasol.

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli. Nid yw gwasanaethau ysgol a'r rhaglen 'myfyrdod am yr wythnos' yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer myfyrio a datblygiad ysbrydol.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i wneud dewisiadau gwybodus am gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth trwy ystod o ddigwyddiadau a chymorth tiwtorial.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol i sicrhau bod anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn cael eu bodloni. Mae Canolfan Fynediad yr ysgol yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion, yn enwedig grwpiau bregus. Mae llawer o adrannau'n darparu pecynnau dysgu cartref defnyddiol sy'n cefnogi dysgu disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae strategaethau effeithiol i gefnogi disgyblion y mae lefel eu medrau llythrennedd yn isel. Fodd bynnag, nid oes digon o gymorth ar gyfer disgyblion eraill y mae eu sgorau darllen gryn dipyn yn is na rhai eu cyfoedion.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion disgyblion eu nodi'n dda ac mae gan bob dysgwr gynlluniau dysgu manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd, ac fe gaiff rhieni adroddiadau llawn gwybodaeth yn olrhain cynnydd.

Nid oes gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu wedi cael eu datblygu'n llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn hynod gynhwysol ac yn darparu amgylchedd croesawgar ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr. Y ganolfan fynediad yw canolbwynt ethos a diwylliant yr ysgol lle caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu dathlu. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu adnoddau digonol ar gyfer disgyblion i gefnogi eu dysgu.

Mae llawer o leoedd wedi cael eu hadnewyddu'n llwyr ers yr arolygiad diwethaf, ond nid yw rhai adeiladau yn cynnig adeiladau o safon dda, yn enwedig yn y bloc gwyddoniaeth. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda ac nid oes sbwriel a graffiti ynddynt ar y cyfan. Mae'r ysgol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion trwy eu harddangos ar draws yr ysgol. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac ar goridorau yn darparu amgylchedd dysgu addas.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir a chyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol. Ers ymgymryd â'i swydd yn 2008, mae wedi arwain gwelliannau mewn nifer o feysydd yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn

ymddygiad disgyblion ac yn yr addysgu, ac mae safonau wedi dechrau gwella mewn llawer o bynciau. Caiff gweledigaeth a nodau'r ysgol eu cyfleu yn effeithiol i ddisgyblion, staff a rhieni, ac mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth a hyder ymhlith rhieni a'r gymuned leol.

Mae gan yr ysgol strwythur rheoli priodol, ac mae gan bob arweinydd ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae gan y tri phennaeth cynorthwyol rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae'r cyfathrebu'n dda ar bob lefel. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol a bod pob un o'r staff yn gallu cyfrannu at gyfeiriad yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i gryfhau arweinyddiaeth ganol. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol mewn meysydd fel dadansoddi data a threfniadau ar gyfer arsylwadau gwersi. Mae gan bob aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyfrifoldebau rheoli llinell priodol ar gyfer arweinwyr pwnc. Mae uwch arweinwyr yn monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn targedau yn ystod y flwyddyn, ond mae anghysondeb yn y modd y caiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif. Mae gormod o amrywiad yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar lefel rheolwyr canol gyda ffocws annigonol ar fynd i'r afael â meysydd i'w gwella wrth addysgu a monitro cynnydd disgyblion mewn gwersi.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol, ac maent wedi sefydlu cysylltiadau defnyddiol gyda nifer o adrannau pwnc yn ddiweddar. Mae'r corff llywodraethol yn herio agweddau ar waith yr ysgol, ond nid yw'n herio'r ysgol a'r adrannau pwnc yn ddigonol o ran safonau a'r cynnydd a wna disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth cenedlaethol fel llwybrau dysgu 14-19 a'r pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae wedi rhoi strategaethau ar waith sydd wedi'u hanelu at ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, er bod angen gwneud mwy i sicrhau dilyniant gwell mewn medrau ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu ei gwaith. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau o ddata perfformiad, arsylwadau gwersi, adolygiadau o waith ysgrifenedig disgyblion ac ymgynghori â disgyblion, rhieni a phobl eraill. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi ystyriaeth dda i adolygiadau perfformiad sy'n cael eu cynnal gan ymgynghorwyr yr awdurdod lleol.

Cyflwynir adroddiadau hunanarfarnu ysgol gyfan ac adrannol mewn fformat cyson ac maent yn cynnwys barnau ar ystod eang o agweddau. Mae'r adroddiad ysgol gyfan manwl yn adlewyrchu dull hunanfeirniadol addas gan uwch arweinwyr. Mae rhai adroddiadau adrannol yn gynhwysfawr a thrylwyr. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn amlygu rhai meysydd pwysig i'w gwella yn ddigon clir, yn arbennig mewn perthynas ag agweddau ar addysgu ac asesu, a medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi targedau addas sy'n ystyried canfyddiadau'r broses hunanarfarnu. Mae'n amlinellu camau arfaethedig a manylion ynglŷn â'r

modd y caiff llwyddiant ei fesur. Fodd bynnag, nid yw'n nodi cyfrifoldebau a graddfeydd amser, ac ni chaiff y camau eu mynegi'n ddigon clir bob amser. Mae cynlluniau gwella adrannol yn ystyried blaenoriaethau ysgol gyfan yn ogystal â materion a nodwyd trwy hunanarfarnu adrannol. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol yn eglurder y camau a'r meini prawf llwyddo, a'r ffocws a roddir ar nodi strategaethau i wella'r addysgu a'r dysgu.

Mae llawer o athrawon yn aelodau o grwpiau sefydledig yn yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod, i ddatblygu a rhannu arfer dda. Mae gwaith y grwpiau hyn wedi dechrau effeithio ar arfer ystafell ddosbarth ac mae trefniadau ar y gweill ar gyfer ei ledaenu'n ehangach.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd clir wrth fynd i'r afael â rhai o argymhellion yr arolygiad blaenorol yn 2006. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd wedi bod o ran gwella safonau a llythrennedd. Nid yw'r gwelliannau cychwynnol mewn presenoldeb wedi cael eu cynnal.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid a sefydliadau cymunedol. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion.

Caiff rhieni eu hannog i weithio gyda'r ysgol ac mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau hyn. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon hefyd sy'n cael ei chefnogi'n dda. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ymholiadau a phryderon rhieni, ac mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo'n gyfforddus yn mynd at yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i sicrhau cyfnod pontio didrafferth disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae cynllun pontio clir ac effeithiol ac mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer safoni asesiadau athrawon.

Mae swyddog cyswllt yr heddlu yn ymweld â'r ysgol bob bore dydd Gwener, gan roi cyfleoedd i ddisgyblion drafod materion perthnasol sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cydweithio â darparwyr eraill i ymestyn y dewisiadau dysgu ar gyfer disgyblion fel rhan o'r bartneriaeth 14–19 leol. Mae trefniadau sicrhau ansawdd priodol ar waith ar gyfer cyrsiau cydweithredol, er nad yw'r ysgol wedi cael ei hysbysu'n llawn eto am ddeilliannau sicrhau ansawdd mewn dosbarthiadau lle mae disgyblion yn dilyn cyrsiau mewn darparwyr eraill.

Daw ystod o fentoriaid ieuenctid a phartneriaid o'r gymuned leol, yn cynnwys myfyrwyr o Brifysgol Bangor, i'r ysgol i fentora disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddyheadau a hyder disgyblion wrth iddynt weithio gyda phobl eraill.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys sy'n cael eu defnyddio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Defnyddir cynorthwywyr cymorth dysgu yn effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn hygyrch ar gyfer pob disgybl. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad

priodol wedi cael eu rhoi ar waith i nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol pob un o’r staff.

Mae’r ysgol yn targedu ei hadnoddau presennol yn effeithiol i sicrhau bod modd cyflawni’r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.  Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n dda.  Caiff y broses hon ei monitro’n agos gan y llywodraethwyr, y mae gwybodaeth berthnasol am sefyllfa ariannol yr ysgol ar gael iddynt.  Mae diffyg sylweddol yng nghyllideb yr ysgol.  Rhoddwyd cynllun adfer addas ar waith mewn cytundeb â’r awdurdod lleol.

Ar sail ei pherfformiad presennol, mae’r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae tuedd raddol o welliant wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno. Fodd bynnag, mae perfformiad yn is na'r disgwyliadau ac yn parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod yn wan. Mae cyflawniad mewn llafaredd ac mewn ysgrifennu yn arbennig ymhell islaw'r cyfartaleddau teuluol. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3, mae tuedd glir ar i fyny mewn cyflawniad, i fod yn agos at y cyfartaleddau teuluol. Mae tuedd ar i fyny wedi bod mewn llawer o'r pynciau eraill hefyd, ond mae perfformiad yn gyffredinol yn parhau i fod yn is na chyfartaleddau teuluol. Ar wahân i wyddoniaeth, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn rhoi'r ysgol yn y 50% is ar y cyfan, yn aml yn y 25% isaf, o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad yn is na'r disgwyl ar y cyfan o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae tuedd gyson o wella wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ond bu gostyngiad bach yn 2011. Fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau i fod ymhell islaw'r cyfartaleddau teuluol. Mae perfformiad yr ysgol yn nhrothwy lefel 1 yn agos at y cyfartaledd teuluol. Mae tuedd sylweddol o wella wedi bod ym mherfformiad yr ysgol yn nhrothwy lefel 2, ond mae perfformiad yn parhau i fod ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio yn adlewyrchu darlun tebyg.

Mewn Saesneg, mae perfformiad ar lefel 2 ymhell islaw'r cyfartaledd teuluol. Fodd bynnag, mae gwelliant sylweddol wedi bod mewn cyflawniad ar lefel 2 mewn mathemateg ac mewn gwyddoniaeth, gyda pherfformiad yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau teuluol.

O gymharu ag ysgolion y mae eu lefelau prydau ysgol am ddim yn debyg, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf yn y mwyafrif o ddangosyddion ar y cyfan. Mae perfformiad ymhell islaw'r disgwyliadau ar y cyfan.

Yn y chweched dosbarth, mae gwelliant cyson wedi bod mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 3 dros y tair blynedd diwethaf i fod uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2011. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi gwella hefyd, ond mae'n parhau i fod gryn dipyn islaw cyfartaledd Cymru.

Mae tuedd o welliant wedi bod yng nghyfran y bechgyn sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae bwlch sylweddol yn parhau rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg. Mae perfformiad bechgyn gryn

dipyn yn is na pherfformiad bechgyn yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 hefyd.  Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio ar lefel is na'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion ar y cyfan.  Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng perfformiad y disgyblion hyn a'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yn llai na bwlch y teulu a Chymru.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiaduron i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 211 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cytuno:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; a'u bod
- yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cytuno:

- bod digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu helpu pan fydd ganddynt broblemau;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, yn cynnwys cyfrifiaduron;
- bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer coleg neu i ddechrau bywyd gwaith; a
- bod staff yn eu parchu nhw a'u cefndir, ac yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Mae llawer o ddysgwyr yn cytuno:

- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod rhywun y gallant siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith;
- bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt a bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu; a'u bod
- wedi cael cyngor da wrth ddewis cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

**Ymateb i'r holiaduron i rieni**

Cafodd Estyn 160 o ymatebion i'r holiadur i rieni.

Mae bron pob un o'r rhieni'n cytuno:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon a'i fod/bod wedi cael cymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno:

- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau;
- bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb, a'i fod/bod yn cael ei baratoi/pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i goleg neu waith; a
- bod ystod dda o weithgareddau yn cynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau.

Mae llawer o rieni'n cytuno:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch atynt;
- eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn; a'u
- bod yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem, ac yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Gill Simms | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Kerry Jones | Arolygydd Lleyg |
| Matthew Brown | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Wyn Roberts | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |